



Cais am Drwydded Metel Sgrap

RHAN 1. (i bob ymgeisydd)

Nodwch y math o drwydded yr ydych yn gwneud cais amdani (ticiwch)

Trwydded safle Trwydded casglwr Cais Awdurdod

Sir Gaerfyrddin

Mae eich cais yn un ar ran (ticiwch)

Unigolyn Cwmni Partneriaeth

Nodwch eich enw masnachol neu enw eich cwmni.

A yw'r cais hwn yn gais am adnewyddu? (ticiwch)

Ydy Nac ydy

Os 'ydy', rhowch rif eich trwydded bresennol.

RHAN 2. I'W LLENWI OS YDYCH YN GWNEUD CAIS AM DRWYDDED SAFLE

D.S. Mae trwydded safle yn awdurdodi deiliad y drwydded i weithredu busnes ar safle yn ardal yr Awdurdod. Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i wneud cais am drwyddedu mwy nag un safle.

Eich manylion personol
TEITL (ticiwch)

Mr Mrs Miss Ms Arall (nodwch)

Cyfenw

Enwau cyntaf

Rwy'n 18 oed neu'n hŷn. Ticiwch

Ydw Nac ydw Dyddiad Geni

Cyfeiriad (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i ohebu â chi oni bai eich bod yn llenwi'r blwch gohebu ar wahân sydd isod).

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Rhifau cyswllt:

Yn ystod y dydd:

Gyda'r hwyr:

Symudol:

Cyfeiriad e-bost (Os yw'n well gennych inni ohebu â chi drwy e-bost)

Cyfeiriad gohebu:

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Os ydych yn gwneud cais ar ran partneriaeth, rhowch y manylion canlynol ynghylch pob partner:

Enw llawn:

Dyddiad geni:

Cyfeiriad preswyl:

Os oes mwy nag un partner, rhestrwch y manylion ychwanegol ar ddalen ar wahân.

Os ydych yn gwneud cais ar ran cwmni, rhowch:

Enw'r cwmni:

Rhif Cofrestru:

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig:

Nodwch gyfeiriad llawn pob safle lle'r ydych yn bwriadu gweithredu eich busnes Deliwr Metel Sgrap.
[D.S. Os yw'r ymgeisydd yn gweithredu mwy nag un safle mewn ardal Awdurdod Trwyddedu, dylid darparu mwy nag un rheolwr safle. Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.]

Enw neu rif:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Rhif Ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Cyfeiriad y wefan:

Oriau gweithredu:

Manylion y rheolwr safle/rheolwyr safle (os ydynt yn wahanol i fanylion yr ymgeisydd)

Enw:

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Dyddiad Geni:

Os yw'r cais yn ymwneud â mwy nag un safle, nodwch pa reolwr safle fydd yn edrych ar ôl pa safle.
Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

Manylion y Cyfarwyddwr (Cyfarwyddwyr) a/neu Ysgrifennydd y Cwmni (os ydynt yn wahanol i fanylion yr ymgeisydd a'r rheolwr/rheolwyr safle)

Enw:

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Dyddiad Geni:

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

Rhowch fanylion y cyfrif banc a fydd yn gwneud taliadau i gyflenwyr, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

Enw'r cyfrif:

Côd Didoli:

Rhif y cyfrif:

Rhowch fanylion unrhyw safle yn ardal unrhyw awdurdod lleol arall lle mae'r ymgeisydd yn gweithredu busnes deliwr metel sgrap neu'n bwriadu gwneud hynny:

Cyfeiriad:

Côd Post:

Rhowch enw'r awdurdod lleol sydd wedi trwyddedu'r safle hwn, neu y cyflwynwyd ceisiadau iddo, os oedd hynny cyn i Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 ddod i rym:

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen.

Rhowch fanylion unrhyw gofrestrriad, eithriad neu hawlen amgylcheddol sy'n berthnasol a roddwyd mewn perthynas â'r ymgeisydd.

Dim ond i safleoedd a sefydlwyd ar ôl 1 Tachwedd 1990 y mae hyn yn berthnasol.

A oes gennych ganiatâd cynllunio? (ticiwch)

Oes Nac oes

Rhowch fanylion, gan gynnwys rhif trwydded, unrhyw drwydded metel sgrap arall y mae unrhyw Awdurdod wedi'i rhoi i'r ymgeisydd yn y 3 blynedd diwethaf:

**RHAN 3. I'W LLENWI OS YDYCH YN GWNEUD CAIS AM DRWYDDED CASGLWR
D.S. Mae trwydded casglwr yn awdurdodi deiliad y drwydded i weithredu busnes casglwr
teithiol yn unig yn ardal yr Awdurdod.**

Eich manylion personol
TEITL (ticiwch)

Mr Mrs Miss Ms Arall (nodwch)

Cyfenw:

Enwau cyntaf:

Cyfeiriad (Byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad hwn i ohebu â chi oni bai eich bod yn llenwi'r blwch gohebu ar wahân sydd isod).

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Rhifau cyswllt:

Yn ystod y dydd:

Gyda'r hwyr:

Symudol:

Cyfeiriad e-bost (os yw'n well gennych inni gysylltu â chi drwy e-bost)

Cyfeiriad gohebu:

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Rhowch fanylion y cyfrif banc a fydd yn gwneud taliadau i gyflenwyr, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013.

Enw'r cyfrif:

Côd Didoli:

Rhif y cyfrif:

Ble fydd y metel sgrap sydd wedi'i brynu'n cael ei storio cyn cymryd camau pellach i'w waredu?

Enw neu rif y tŷ:

Llinell gyntaf y cyfeiriad:

Tref/Dinas:

Côd Post:

Ni fydd yn cael ei storio.

A ydych yn gludwr gwastraff cofrestredig? (ticiwch)

Ydw Nac ydw

Os ydych, rhowch eich rhif cludwr cofrestredig:

Rhowch fanylion unrhyw gofrestrriad, eithriad neu hawlen amgylcheddol sy'n berthnasol a roddwyd mewn perthynas â'r ymgeisydd.

Rhowch fanylion unrhyw Drwydded Metel Sgrap arall y mae unrhyw Awdurdod wedi'i rhoi i'r ymgeisydd yn y 3 blynedd diwethaf.

RHAN 4. Ailgylchu Moduron (i bob ymgeisydd)

A fydd eich busnes yn cynnwys bod yn ailgylchwr moduron? Diffinnir y busnes hwn fel un:

- sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ailgylchu rhannau y gellir eu hailddefnyddio o gerbydau modur i'w hailddefnyddio neu eu hailwerthu, ac sydd yna'n gwerthu gweddill y cerbyd am y sgrap;
- sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ymwneud â phrynu cerbydau y bernid na ellid eu defnyddio mwyach ac yna'n eu hatgyweirio a'u gwerthu i'w gwaredu; ac,
- sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn prynu neu'n gwerthu cerbydau modur er mwyn ailgylchu rhannau ohonynt neu eu hatgyweirio a'u gwerthu i'w gwaredu.
(ticiwch)

Bydd Na fydd

RHAN 5. TALU (i bob ymgeisydd)

Sut ydych yn dymuno talu am eich trwydded Deliwr Metel Sgrap? (ticiwch)

Siec (yn daladwy i: Cyngor Sir Caerfyrddin)

RHAN 6. COLLFARNAU TROSEDDOL (i bob ymgeisydd)

A ydych chi neu unrhyw reolwr safle sydd wedi'i restru yn y cais hwn erioed wedi cael eich collfarnu (h.y. dyfarnu'n euog) o drosedd berthnasol neu wedi bod yn destun unrhyw gamau gorfodi perthnasol? (Isod nodir rhestr o'r troseddau perthnasol),

Ydw Nac ydw

Os ydych/ydyw, rhowch fanylion

A ydych wedi atodi eich ffurflen gwirio datgeliad sylfaenol? (Sylwch – rhaid i'r ymgeisydd ac unrhyw reolwr safle perthnasol gael y ffurflen hon a'i hatodi wrth y cais.)

Ydw Nac ydw

RHAN 7. DATGANIAD (i bob ymgeisydd)

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ffurflen hon yn wir ac yn fanwl gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Yr wyf yn deall os gwnaf ddatganiad gan wybod ei fod yn anwir, neu os gwnaf yn fyrbwyll ddatganiad perthnasol sy'n anwir, y byddaf yn troseddu dan Atodlen 1 o Baragraff 5 o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013, ac y gallaf gael fy erlyn am hynny, ac os caf fy nghollfarnu (h.y. dyfarnu'n euog), y bydd yn rhaid imi dalu dirwy.

Yr wyf yn deall y gall yr Awdurdod Lleol y cyflwynaf fy nghais iddo ymgynghori ag asiantaethau eraill ynghylch fy addasrwydd i gael trwydded i fod yn ddeliwr metel sgrap, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013, ac y gall yr asiantaethau eraill hynny gynnwys awdurdodau lleol eraill, Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r Heddlu.

Yr wyf yn deall mai diben rhannu'r data hwn yw llunio asesiad llawn o'm haddasrwydd i gael trwydded i fod yn ddeliwr metel sgrap. Yr wyf yn deall hefyd y gall y rhannu gwybodaeth hwn amdanaf gynnwys rhannu data personol a sensitif, megis data ynghylch unrhyw dramgwyddau troseddol blaenorol. Bydd rhai manylion yn cael eu harddangos hefyd ar gofrestr genedlaethol, yn unol â gofynion Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013. Yr wyf drwy hyn yn caniatáu'n benodol i'r prosesu hwn o'm data ac i wybodaeth berthnasol gael ei dangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Llofnodwyd

Dyddiad:

Cymorth i lenwi eich cais am drwydded i fod yn Ddeliwr Metel Sgrap

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i lenwi'r ffurflen gais, ffoniwch dîm Rheoli Llygredd eich Cyngor lleol. Bydd y tîm yn barod eu cymorth.

Rhan 1 – i bawb

Mae'r rhan hon yn gofyn a ydych yn gwneud cais am drwydded casglwr neu am drwydded safle. Dim ond am un math o drwydded y cewch wneud cais ym mhob ardal gyngor, ond cewch wneud cais am weithredu mwy nag un safle. Er enghraifft, gallech wneud cais i weithredu 3 safle yn ardal Cyngor A, a gallech hefyd wneud cais i fod yn gasglwr yn ardal cyngor B.

Mae **trwydded safle** yn caniatáu ichi brynu a gwerthu metel sgrap o leoliad penodol yn ardal y Cyngor.

Mae **trwydded casglwr** yn caniatáu ichi deithio o fewn ardal y Cyngor i gasglu metel sgrap. Ni chaniateir ichi fynd â'r metel hwn yn ôl i safle yr ydych yn ei weithredu yn ardal y Cyngor er mwyn ei werthu.

Rhan 2 – Trwyddedau safle

Llenwch y rhan hon os ydych yn dymuno cael **trwydded safle**. Yn ogystal â chyfeiriad y safle neu'r safleoedd yr ydych yn dymuno cael trwydded ar eu cyfer, mae angen inni gael gwybod hefyd lle'r ydych chi ac unrhyw gyfarwyddwyr, partneriaid neu reolwyr safle yn byw fel rheol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn inni allu cysylltu â chi os bydd unrhyw broblemau.

Nid oes llawer o le ar y ffurflen, felly os oes angen ichi restru mwy nag un rheolwr safle, cyfarwyddwr neu bartner, defnyddiwch ddalen ar wahân o bapur gan nodi'r manylion yn yr un modd ag a wneir ar y ffurflen.

Rheolwr safle yw'r sawl a fydd yn gyfrifol am y safle o ddydd i ddydd. Mwy na thebyg y bydd angen rheolwr safle gwahanol arnoch ar gyfer pob safle sy'n rhan o'r drwydded.

Cyfarwyddwr neu **bartner** yw rhywun sy'n gyfrifol neu sy'n rhannu'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros weithredu'r cwmni, gan gynnwys anfon dychwelebau at Dŷ'r Cwmnïau.

Mae'r rhan hon yn gofyn ichi hefyd am y manylion banc y byddwch yn eu defnyddio i dalu pobl am y metel sgrap a gewch neu a werthwch. Gwneir hyn er mwyn gwirio nad ydych yn gwerthu'r metel am arian parod, sy'n anghyfreithlon. Bydd y Cyngor yn cadw'r manylion hyn yn ddiogel.

Rydym hefyd yn gofyn ichi am fanylion unrhyw drwyddedau Metel Sgrap eraill sydd gennych, neu yr ydych wedi gwneud cais amdanynt, gan gynnwys enw'r Cyngor sy'n eu rhoi. Gofalwch eich bod yn cynnwys rhif y drwydded er mwyn inni allu ei wirio yn erbyn y gofrestr genedlaethol.

Efallai y bydd angen ichi fod yn ddeiliad trwyddedau neu hawlenni amgylcheddol eraill y dylem wybod amdanynt. Er enghraifft, os ydych yn cludo gwastraff fel rhan o'ch busnes mae'n ofyniad cyfreithiol ichi gofrestru yn gludwr gwastraff. Mae hyn yn cynnwys cludo gwastraff wrth deithio o un gwaith i waith arall, cludo gwastraff i storfa er mwyn ei waredu'n ddiweddarach, neu ei gludo i gwmni gwaredu gwastraff neu safle gwastraff. I gael gwybod rhagor am hyn, neu i gofrestru, ffoniwch: 0300 065 3000 neu ewch i www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Os sefydlwyd eich safle(oedd) ar ôl 1990, mae'n ofynnol ichi fod â chaniatâd cynllunio gan y Cyngor. Bydd angen ichi ddweud wrthym os dyma'r sefyllfa, a bydd hyn yn cael ei wirio drwy is-adran gynllunio'r Cyngor.

Rhan 3 – Trwydded casglwr

Llenwch y rhan hon os ydych yn dymuno cael **trwydded casglwr**. Gofynnir ichi roi manylion cyswllt, gan gynnwys manylion y man lle'r ydych yn byw, er mwyn i'r Cyngor allu cysylltu â chi os bydd angen.

Rydym hefyd yn gofyn ichi am fanylion y man lle byddwch yn storio unrhyw fetel a gesglir cyn ei gludo i safle trwyddedig i'w waredu. Sylwch na chaniateir ichi werthu na phrynu metel ar y safle storio hwn a'i bod yn drosedd gwneud hynny. Gall hwn fod yn safle trwyddedig yr ydych yn ei weithredu mewn ardal gyngor arall.

Mae'r rhan hon yn gofyn ichi hefyd am y manylion banc y byddwch yn eu defnyddio i dalu pobl am y metel sgrap a gewch neu a werthwch. Gwneir hyn er mwyn gwirio nad ydych yn gwerthu'r metel am arian parod, sy'n anghyfreithlon. Bydd y Cyngor yn cadw'r manylion hyn yn ddiogel.

Rydym hefyd yn gofyn ichi am fanylion unrhyw drwyddedau Metel Sgrap eraill sydd gennych, neu yr ydych wedi gwneud cais amdanynt, gan gynnwys enw'r Cyngor sy'n eu rhoi. Gofalwch eich bod yn cynnwys rhif y drwydded er mwyn inni allu ei wirio yn erbyn y gofrestr genedlaethol.

Efallai y bydd angen ichi fod yn ddeiliad trwyddedau neu hawlenni amgylcheddol eraill y dylem wybod amdanynt. Er enghraifft, os ydych yn cludo gwastraff fel rhan o'ch busnes mae'n ofyniad cyfreithiol ichi gofrestru yn gludwr gwastraff. Mae hyn yn cynnwys cludo gwastraff wrth deithio o un gwaith i waith arall, cludo gwastraff i storfa er mwyn ei waredu'n ddiweddarach, neu ei gludo i gwmni gwaredu gwastraff neu safle gwastraff. I gael gwybod rhagor am hyn, neu i gofrestru, ffoniwch: 0300 065 3000 neu ewch i www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Bydd angen ichi sicrhau bod eich holl gerbydau'n addas i'r ffordd fawr a'u bod wedi'u trethu a'u hyswiro'n briodol ac yn bodloni'r gofynion cyfreithiol eraill er mwyn iddynt gael mynd ar y ffordd fawr.

Rhan 4 – Ailgylichwr Moduron

Mae'r rhan hon yn gofyn ichi a fyddwch yn ailgylichu cerbydau modur fel rhan o'ch gwaith. Mae Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013 yn dod â Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 a Rhan 1 o'r Ddeddf (Troseddau) Cerbydau 2001 ynghyd, sy'n golygu mai dim ond trwydded i fod yn ddeliwr metel sgrap y mae ei hangen arnoch bellach.

Rhan 5 – Manylion talu

Mae ffi am wneud cais am drwydded a bydd eich Cyngor yn dweud wrthyh sut y gallwch dalu. Mae'r ffi yn amrywio o Gyngor i Gyngor ac mae hyn yn adlewyrchu'r gost iddynt o brosesu'r ffurflen a gwirio bod pobl yn gwneud yr hyn sy'n ofynnol dan y drwydded. Ni ellir rhoi trwyddedau oni bai fod y ffi gywir wedi'i thalu.

Rhan 6 – Collfarnau perthnasol

Yn y rhan hon, mae'n rhaid i bob un sydd wedi'i restru ar y ffurflen gais gyflwyno ffurflen wirio ar gyfer datgeliad 'sylfaenol' gan Disclosure Scotland. Gallwch wneud cais am y dystysgrif hon ar wefan <http://www.disclosurescotland.co.uk/apply/individuals/>

Mae hyn oherwydd bod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu bod angen ichi ddweud wrth y Cyngor os ydych wedi cael eich collfarnu (h.y. eich dyfarnu'n euog) am droseddau penodol. Efallai na fydd y ffaith eich bod wedi cael collfarn yn ddo'i hun yn eich atal rhag cael trwydded os nad oedd y drosedd yn ymwneud â bod yn ddeliwr metel sgrap neu os digwyddodd yn y gorffennol pell, ac y gallwch argyhoeddi'r Cyngor eich bod yn unigolyn addas.

Ystyrir mai am gyfnod penodol yn unig y mae gwiriad datgeliad 'sylfaenol' yn ddilys, ond gellir ei ddefnyddio i wneud cais i gynifer o Gynghorau ag y dymunwch yn y cyfnod hwnnw. Fel rheol, tri mis yw'r cyfnod hwyaf y gallwch ddisgwyl i'ch gwiriad gael ei ystyried yn ddilys.

Rhan 6 7 – Datganiad

Mae angen i chi, ac i'r bobl eraill a enwir ar y ffurflen, lofnodi'r ffurflen cyn y caiff ei derbyn. Mae'r rhan hon yn egluro bod yn rhaid i'r Cyngor rannu rhai o'ch manylion â'r Heddlu, ag Asiantaeth yr Amgylchedd neu â Chyfoeth Naturiol Cymru wrth wirio eich bod yn unigolyn addas i fod yn ddeiliad trwydded. Bydd peth o'ch gwybodaeth i'w gweld hefyd ar gofrestr gyhoeddus.

Os nad ydych yn caniatáu i'ch gwybodaeth gael ei defnyddio yn y modd hwn, ni ddylech lofnodi'r ffurflen. Os nad ydych yn gwbl sicr o ystyr y rhan hon, mynnwch air â thîm trwyddedu eich Cyngor.

Troseddau Perthnasol

Mae'r rhain i'w cadarnhau yn Rheoliadau'r Swyddfa Gartref. Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol yn rhagweld, yn seiliedig ar nodiadau esboniadol Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013, y bydd y rhain yn cyd-fynd â chynlluniau trwyddedu amgylcheddol eraill ac mae'n awgrymu'r rhestr amlinellol isod:

- Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999
- Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989: Adran 1, 5 neu 7(3)
- Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979: Adran 170 (dim ond ar gyfer troseddau amgylcheddol/dwyn metel)
- Deddf yr Amgylchedd 1995: Adran 110(2)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2007: Rheoliad 38
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010: Rheoliad 38
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990: Adran 33 a 34
- Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985: Adran 9(1)
- Deddf Twyll 2006: Adran 1 (dim ond ar gyfer troseddau amgylcheddol/dwyn metel)
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005
- Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005
- Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002: Rheoliad 17(1)
- Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000
- Deddf Enillion Troseddau 2002: Adrannau 329, 330, 331 a 332 (dim ond ar gyfer troseddau amgylcheddol/dwyn metel)
- Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Parcio) 2007
- Deddf Delwyr Metel Sgrap 1964 (dim ond ar gyfer troseddau amgylcheddol/dwyn metel)
- Deddf Dwyn 1968: Adrannau 1, 8, 9, 10, 11, 17, 18, 22 a 25 (dim ond ar gyfer troseddau amgylcheddol/dwyn metel)
- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 1994
- Rheoliadau Cludo Gwastraff ar draws Ffiniau 2007
- Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2006
- Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011: Rheoliad 42
- Deddf Adnoddau Dŵr 1991: Adran 85, 202 neu 206